

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau



1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2021



Tabl Cynnwys

1	Rhagair	3
2	Egwyddorion Allweddol.....	4
3	Gofynion Deddfwriaeth a Pholisi	5
4	Cylch Oes Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau	7
5	Diffiniadau Allweddol.....	8
6	Comisiynu.....	9
7	Caffael.....	13
8	Rheoli Contractau	18

1 Rhagair

- 1.1 Mae'r Strategaeth hon yn cynnwys yr amrywiaeth gyfan o weithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contract a wneir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam (y Cyngor). Mae hyn yn cynnwys nwyddau, gwaith a gwasanaethau.
- 1.2 Mae'n nodi'r dull y bydd gweithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau yn darparu'r canlyniadau gorau posibl i breswylwyr a budd-ddeiliaid. Mae gan hyn bwysigrwydd penodol yng nghyd-destun yr heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r Cyngor.
- 1.3 Bydd y Cyngor yn cyflawni pob gweithgaredd comisiynu, caffael a rheoli contractau mewn modd cyfrifol yn economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, i ddarparu gwerth am arian a gwasanaethau o safon.
- 1.4 Mae'r Strategaeth yn cefnogi Fframwaith Cynllunio'r Cyngor, fel a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2017 – 2022, gan gynnwys y "Deddfau Lles", h.y. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- 1.5 Mae'r Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau yn cydlynu'r holl weithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau ar draws y Cyngor. Mae ganddynt rôl allweddol o ran sicrhau
 - a) Hyrwyddo ymwybyddiaeth a'r angen am gydymffurfio â deddfwriaeth;
 - b) Darparu sicrwydd i Aelodau Etholedig a rheolwyr bod yr amcanion yn y Strategaeth hon yn cael eu bodloni;
 - c) Bod y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau yn cael eu bodloni;
 - d) Caiff cyfleoedd i annog rhagor o arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau eu nodi a'u gweithredu.

2 **Egwyddorion Allweddol**

- 2.1 Mae hon yn strategaeth gomisiynu, caffael a rheoli contractau integredig. Mae'n nodi gweledigaeth ac amcanion y Cyngor o ran comisiynu, caffael a rheoli contractau ar gyfer yr holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith a gaiff eu darparu gan drydydd parti.
- 2.2 Mae'n cefnogi dull 'un cyngor' o ran comisiynu, caffael a rheoli contractau ac mae'n cydnabod pwysigrwydd bod yr Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau drwy'r Cyngor.
- 2.3 Mae'n darparu fframwaith i gefnogi pob maes o'r Cyngor i fabwysiadu dull cyson, cynhwysfawr a chadarn o ran gwariant trydydd parti. Mae'n sicrhau cydymffurfio ac ystyriaeth o Reoliadau Contractau Cyhoeddus, Polisi Caffael Llywodraeth Cymru, Rheolau'r Weithdrefn Gontractau'r Cyngor, a gofynion deddfwriaethol cysylltiedig eraill.
- 2.4 Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl drefniadau cytundebol yn ystyried y gofyniad i ystyried sut gall y Cyngor fynd ati i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal leol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3 **Gofynion Deddfwriaeth a Pholisi**

3.1 **Cyflwyniad**

3.1.1 Bydd y Cyngor bob amser yn cydymffurfio â deddfwriaeth a bydd yn cefnogi polisiau a strategaethau cenedlaethol lle gellir dangos eu bod yn cefnogi cyflawni amcanion y Cyngor.

3.1.2 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r meysydd canolbwynt presennol ar gyfer gweithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau'r Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau.

3.2 **Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015** – Y fframwaith cyfreithiol caffael cyffredinol y mae'n rhaid i'r Cyngor a phob corff cyhoeddus arall gydymffurfio ag ef. Maen nhw'n rhan allweddol o Bolisi Caffael Cyhoeddus Cymru ac mae angen cydymffurfio dan Reolau'r Weithdrefn Contractau'r Cyngor.

3.3 **Datganiad Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru** – Set o 10 egwyddor mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gael eu dilyn wrth ddarparu caffael sector cyhoeddus yng Nghymru.

3.4 **Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol** – sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013 i alluogi Sector Cyhoeddus Cymru i gydweithredu yn agosach o ran caffael nwyddau a gwasanaethau. Mae wedi caffael Cytundebau Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar draws saith maes gwariant allweddol, h.y. Gwasanaethau Corfforaethol a Busnes; Ffilyd a Chludiant; Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau; TGCh; Gwasanaethau Pobl a Chyfleustodau; Gwasanaethau Proffesiynol; Bwyd.


3.5 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** - mae'n canolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r canllawiau'n nodi, bydd rôl caffael yn rhan bwysig o sut mae corff cyhoeddus yn dyrannu adnoddau dan y Ddeddf.

3.6 **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** – mae'n golygu newid y ffordd mae pobl yn cael gofal iechyd a chymdeithasol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynyddu ymwneud gan gleientiaid a gofawyr yn nylunio a chaffael eu gofal a'u triniaeth, gan roi mwy o lais a rheolaeth iddynt o ran y gwasanaethau maen nhw'n eu cael. Mae hefyd yn annog rhagor o ystyriaeth o'r rôl y gall mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a gaiff eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector eu chwarae o ran cyflawni amcanion polisi'r Ddeddf.

- 3.7 **Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi** – mae hyn yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod arferion cyfreithlon a moesebol yn amlwg drwy'r holl weithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau a hefyd cadwyn gyflenwi'r Cyngor. Mae'r Strategaeth yn darparu ymrwymiad sy'n cefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi moesebol gan y Cyngor.
- 3.8 **Cod Llywodraethu** – Mae Cod Llywodraethu'r Cyngor yn nodi'r lefelau gofynnol o ran moesebol ac ymddygiad a ddisgwylir gan bawb sy'n rhan o weithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau.
- 3.9 **Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Faterion Gweithlu** – dyluniwyd i sicrhau lle caiff gwasanaethau cyhoeddus eu hallanoli i drydydd parti (gan gynnwys y sector preifat neu'r trydydd sector) a lle mae staff yn trosglwyddo neu fel arall, bod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol i ddiogelu telerau ac amodau gweithwyr.
- 3.10 **Canllaw Pensiynau Wrecsam** – mae'n cefnogi'r rhwymedigaethau a roddir ar y Cyngor gan y Cod Ymarfer ar Faterion Gweithlu a helpu i sicrhau cydymffurfio â gofynion dyletswydd pensiynau wrth gynnal gweithgareddau comisiynu a chaffael.
- 3.11 **Strategaeth TGCh a Digidol Wrecsam 2017 – 2020** – mae'n cefnogi a galluogi gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y Cyngor. Ei nod yw defnyddio pŵer technoleg ddigidol.

4 Cylch Oes Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau

4.1 Mae'r Strategaeth yn cwmpasu pob agwedd ar y cylch oes comisiynu, caffael a rheoli contractau fel a ddangosir isod. Mae hyn yn arfer gorau a dderbynnir ar gyfer sefydliadau sy'n ceisio darparu gwerth am arian a dull integredig.



4.2 **Comisiynu – 1. Nodi a 2. Dadansoddi** – Pan fo anghenion cwsmeriaid wedi'u nodi, caiff gwariant presennol ei ddadansoddi a chaiff strategaeth categori ei datblygu i benderfynu ar union ofynion a sicrhau gwerth mwyaf ar gyfer y Cyngor.

4.3 **Caffael – 3. Paratoi a 4. Caffael** – Caiff nwyddau, gwaith neu wasanaethau eu nodi, caiff strategaeth gaffael ei datblygu, caiff proses dendro ei rheoli a chaiff y contract ei ddyfarnu.

4.4 **Rheoli Contractau – 5. Rheoli a 6. Adolygu** – Caiff contractau eu rheoli mewn modd strategol a gweithredol, caiff prosesau darparu contractau a pherfformiad categori eu hadolygu.

5 Diffiniadau Allweddol

- 5.1 Mae **comisiynu** yn broses system gyfan o ymchwilio a dadansoddi anghenion preswylwyr i ddatblygu strategaethau comisiynu a rhaglenni gwaith. Mae'n cynnwys gweithio gyda chyflenwyr, cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu, ysgogi ac ail-ddylunio drwy fanylebau wedi'u cynhyrchu ar y cyd.
- 5.2 Mae'n galluogi gwasanaethau i gael eu dylunio a'u comisiynu sy'n adlewyrchu anghenion presennol poblogaeth a'u hanghenion y dyfodol a chynorthwyo penderfyniadau am sut i wario adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.
- 5.3 **Caffael** yw'r broses o gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau gan drydydd parti. Mae'r broses yn cwmpasu'r cylch oes cyfan, o nodi anghenion, at ddiwedd contract neu ddiwedd oes defnyddiol ased.
- 5.4 Mae'n cynnwys diogelu nwyddau a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a'r gymuned leol orau wrth ddarparu gwerth gorau, er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau allweddol y Cyngor.
- 5.5 **Monitro contractau gweithredol** yw'r gweithgareddau o ddydd i ddydd a gynhelir i sicrhau perfformiad ein rhwymedigaethau a sicrhau bod y contractwr yn cyflawni ei rwymedigaethau.
- 5.6 **Rheoli contractau strategol** yw'r gweithgareddau a gyflawnir i sicrhau bod y contract yn bodloni amcanion contractau ac amcanion corfforaethol a darparu gwerth am arian dros y tymor hwy. Mae'n cynnwys monitro, adolygu a rheoli telerau cytundebol yn rhagweithiol, i sicrhau bod yr hyn a gytunir yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr neu bartneriaid.
- 5.7 **Rheoli perthnasoedd** yw rheoli perthnasoedd gyda'r contractwr a budd-ddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr.

6 Comisiynu

- 6.1 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael a pharhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n dangos gwerth am arian.
- 6.2 Bydd y Cyngor yn gweithio gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid, e.e. defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r gadwyn gyflenwi, awdurdodau lleol, y Trydydd Sector a'r farchnad ehangach i gomisiynu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n ymatebol ac sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y cwsmer a sicrhau gwerth am arian a gwasanaethau di-dor.
- 6.3 Bydd dull y Cyngor o ran Comisiynu yn helpu i sicrhau:
- Dull cyson o ran comisiynu strategol sy'n canolbwyntio ar ddiwallu angen lleol
 - Bod pob gweithgaredd comisiynu yn cael ei gynllunio a'i gydlynu'n dda
 - Ein bod yn glir am pa ganlyniadau rydym yn anelu at eu darparu
 - Ein bod yn gallu mesur a yw'r canlyniadau hyn wedi'u darparu ai peidio, a dal ein darparwyr i gyfrif
 - Bod gan ddarparwyr lleol gyfle llawn i gymryd rhan yn y broses gomisiynu
- 6.4 **Comisiynu Effeithiol**
- 6.4.1 Mae comisiynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn effeithiol angen canolbwynt cryf ar gyflawni canlyniadau ar gyfer y defnyddiwr. Caiff ei gyflawni orau drwy ddull partneriaeth rhwng y Cyngor, defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a'r farchnad ehangach gan gynnwys y Trydydd Sector.
- 6.4.2 Yn unol ag arfer gorau, dylai pob budd-ddeiliad sy'n rhan o'r broses gomisiynu fod yn ymwneud yn gymesur â dylunio, nodi, llunio contract a rheoli darpariaeth gwasanaeth a gwelliant.
- 6.4.3 Felly, dilynir yr egwyddorion a ganlyn:
- Beth yw'r sylfaen dystiolaeth dros wario'r arian?
 - Pa ganlyniadau sydd eu hangen?
 - Sut bydd yr arian yn cael ei wario?
 - A wnaeth unrhyw brosiect/gwasanaeth cysylltiedig a gafodd ei gaffael o'r blaen gyflawni'r canlyniadau dymunol?

6.5 Dylunio'r Gwasanaethau

6.5.1 Ar ddechrau unrhyw ymarfer comisiynu, mae'n bwysig canolbwyntio'n glir ar sut bydd y nwyddau, gwaith neu wasanaeth yn cefnogi darparu Cynllun y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys deall beth sydd eisoes yn digwydd yn y maes gwasanaeth a / neu'r farchnad gaffael berthnasol.

6.5.2 Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- a) Siarad a gwrando ar ein cwsmeriaid / defnyddwyr gwasanaeth
- b) Ymgymryd â gwaith ymchwil
- c) Ymgysylltu â darparwyr presennol a'r farchnad ehangach

6.5.3 Wrth wneud hynny, byddwn yn cynyddu gwybodaeth; cael gwell dealltwriaeth o'r angen sy'n bodoli eisoes a deall beth fydd yn gweithio wrth symud ymlaen. Bydd yn nodi bylchau o ran darpariaeth a chydabod lle mae angen gwelliant.

6.6 Asesu Angen

6.6.1 Er mwyn asesu pa wasanaethau sydd eu hangen, byddwn yn:

- a) Datblygu prosesau ymgynghori a gwneud penderfyniadau i sicrhau cyfranogiad actif swyddogion Cyngor perthnasol, Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhwydweithiau eraill.
- b) Asesu angen yn ôl galw, poblogaeth a math defnyddiwr gwasanaeth lle bo'n briodol, gan ystyried argaeledd cyllideb a darpariaeth bresennol a lefelau gwasanaeth.
- c) Nodi angen na ddiwallwyd a bylchau mewn darpariaeth.
- d) Cael mynediad i ymchwil sydd ar gael, arfer da a chanllawiau polisi.
- e) Penderfynu ar y rôl ar gyfer y Sector Gwirfoddol a Chymunedol o ran cefnogi ymchwil neu ddarparu gwasanaeth.
- f) Nodi a oes angen am gefnogaeth arbenigol neu her i'r broses dadansoddi anghenion.
- g) Asesu'r lefel gweithgaredd presennol, defnyddwyr gwasanaeth a wasanaethir, canlyniadau sy'n cael eu bodloni a nodi bylchau.

6.7 Dadansoddi Capasiti

6.7.1 Er mwyn dadansoddi a deall capasiti, byddwn yn:

- a) Nodi a yw'r farchnad yn barod i gefnogi'r gofynion cytundebol a'r canlyniadau gwasanaeth a nodir o waith dadansoddi anghenion.

b) Rhoi ystyriaeth i fylchau mewn gwasanaeth a nodi beth gall y farchnad ei ddarparu a lle gallai fod angen ei ddatblygu.

c) Cefnogi meithrin capasiti gyda sylfaen cyflenwi ehangach drwy ddigwyddiadau ymgysylltu'r farchnad wedi'u targedu.

6.7.2 Er mwyn cefnogi asesiadau, byddwn yn ystyried:

a) A yw'r gwasanaeth dan sylw yn gyfrifoldeb statudol i'r Cyngor.

b) Nifer, maint a gallu darparwyr gwasanaeth presennol a phosibl.

c) Faint o arian sy'n cael ei wario ar hyn o bryd a sut caiff ei ddyrannu dan gontract.

d) Fel bo'n berthnasol, y rhaniad gwariant rhwng darpariaeth fewnol ac allanol.

6.8 Ymgysylltu â'r Farchnad

6.8.1 Er mwyn dadansoddi marchnadoedd, byddwn yn:

a) Nodi pa mor fawr yw'r farchnad cyflenwi presennol neu bosibl.

b) Nodi lefel y ddarpariaeth gwasanaeth sy'n cael ei darparu ac sydd ar gael.

c) Penderfynu ar y posibilrwydd dros arallgyfeirio'r gwasanaeth presennol sy'n cael ei gynnig.

d) Penderfynu ar unrhyw angen neu botensial ar gyfer meithrin gallu, yn enwedig o ran cyd-gynhyrchu yn y Trydydd Sector.

e) Nodi a all y farchnad ddarparu cynnyrch a gwasanaethau amgen addas.

6.9 Dylunio'r Gwasanaethau

6.9.1 Er mwyn sicrhau bod dyluniad manylebau gwasanaeth yn bodloni gofynion yn llawn, byddwn yn:

a) Penderfynu ar faint o gyllideb / cyllid sydd ar gael a'i gynaliadwyedd.

b) Cynnwys arfer da a gofynion polisi.

c) Dysgu o brofiadau Sefydliadau Sector Cyhoeddus eraill.

d) Cydgynhyrchu gyda defnyddwyr Gwasanaeth i gynnwys eu profiad a'u dyheadau.

e) Darparu eglurder o ran canlyniadau dymunol.

f) Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a chlr am anghenion ar gael i lywio natur y gwasanaeth gofynnol.

- g) Sicrhau bod y model darparu gwasanaeth yn diwallu anghenion y defnyddiwr yn y ffordd orau ac mae hwn yw'r gwerth gorau ar gyfer y Cyngor.
- h) Nodi modelau gwasanaeth y gwyddir eu bod wedi bod yn effeithiol o ran diwallu anghenion.
- i) Ymgysylltu â'r farchnad a chasglu eu harbenigedd ar fodelau gwasanaeth a allai fod yn briodol.
- j) Sicrhau bod achos busnes yn cael ei gyflwyno sy'n ystyried cyllid ar gyfer y gwasanaeth gan gynnwys ei gynaliadwyedd a beth fydd yn digwydd os a phan fydd cyllid yn lleihau / dod i ben.
- k) Sicrhau bod effaith cydraddoldeb unrhyw gynigion datblygu gwasanaeth yn cael eu cwblhau.
- l) Penderfynu a yw sgiliau / adnoddau gofynnol ar gael yng ngweithlu'r Cyngor (gyda / heb ddatblygu'r gweithlu) i ddarparu datblygiad arfaethedig manylebau gwasanaeth a datrysiadau.
- m) Sicrhau bod pob risg yn cael ei deall, ei chofnodi a'i lliniaru cyn belled ag sy'n bosibl, e.e. risgiau cadwyn gyflenwi.

7 Caffael

7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae'r Strategaeth hon yn gofyn am y safonau uchaf o arfer cyfreithiol a chaffael a bod yr holl gaffael yn cael ei wneud yn effeithlon ac effeithiol gan ddefnyddio datrysiadau arloesol lle bo'n bosibl.

7.1.2 Bydd defnyddio dull Rheoli yn ôl Categori o ran caffael yn:

- a) Sicrhau gwerth am arian drwy grynhai gwariant lle bo'n bosibl a defnyddio "pŵer prynu" y Cyngor.
- b) Cyfyngu ar wariant oddi ar gontract a lleihau nifer y cyflenwyr allanol.
- c) Sicrhau cydymffurfio â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.

7.1.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr effaith gadarnhaol gall ei chael ar fusnesau lleol a mentrau cymdeithasol. Byddwn yn ceisio adeiladu ar gadwyni cyflenwi lleol, gweithio'n arloesol i greu cyfle iddynt a sicrhau nad yw ein prosesau yn rhoi anfanteision iddynt.

7.1.4 Trwy'r holl weithgareddau caffael, byddwn bob amser (o fewn cyfyngiadau gofynion deddfwriaethol ac ystyriaethau gwerth am arian) yn adolygu sut gall ein contractau greu cyfleoedd i fusnesau lleol, naill ai i wneud cais amdanynt ar sail uniongyrchol neu i ennill tir drwy'r gadwyn gyflenwi neu gontractwr arall a benodwyd.

7.2 Nodau Strategol

7.2.1 Er mwyn sicrhau bod Caffael yn cael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth strategol sy'n dylanwadu ar gynllunio cynnar a dylunio gwasanaethau a'i fod yn rhan o wneud penderfyniadau i gefnogi cyflawni amcanion cyffredinol, byddwn yn:

- a) Sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal mewn modd cydlynol a'u harwain drwy'r Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau.
- b) Mabwysiadu dull Caffael lleol sy'n Gyfeillgar i BBaCh (busnesau bach a chanolig), i helpu i sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn helpu i wneud Wrecsam a'i hardaloedd cyfagos yn lle da i wneud busnes. Yn y fframwaith cyfreithiol caffael, byddwn yn ceisio datblygu sylfaen gyflenwi leol cryf, a chyfrannu at seilwaith economaidd iach.
- c) Cynnwys ffyrdd o weithio sy'n deg, agored a thryloyw ac sy'n unol ag egwyddorion arfer gorau a gofynion deddfwriaethol caffael.

7.3 Adnoddau Proffesiynol

7.3.1 Mae'r Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau yn darparu'r lefel briodol o adnoddau proffesiynol i ddarparu gweithgareddau caffael allweddol mewn ffordd strategol a chydlynol.

7.3.2 Bydd yn rheoli categorïau gwariant, datblygu cynlluniau caffael strategol i'r dyfodol a chefnogi comisiynu a rheoli gofynion gwasanaeth.

7.4 Effaith Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol

7.4.1 Caiff Gwerth am Arian ei ystyried fel y cyfuniad gorau o gostau oes cyfan yn nhermau nid yn unig cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau o ansawdd da ar gyfer y Cyngor, ond hefyd budd i gymdeithas a'r economi, wrth leihau difrod i'r amgylchedd.

7.4.2 Er mwyn sicrhau gwerth am arian byddwn yn:

- a) Cynnal gweithgareddau caffael a chomisiynu, gydag ystyriaeth ddyledus i'n dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- b) Parhau i fabwysiadu a defnyddio egwyddorion Siarter Drysau Agored Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau bod busnesau bach a chanolig lleol yn cael cyfle llawn i gystadlu am a darparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Awdurdod.
- c) O fewn cyfyngiadau deddfwriaeth caffael berthnasol, annog, cefnogi a datblygu marchnadoedd lleol i gynyddu budd lleol cyfleoedd caffael.

7.5 Buddion Cymunedol

7.5.1 Gall cynnwys Buddion Cymunedol mewn cyfleoedd caffael perthnasol gynorthwyo i ddatblygu economi Gymreig ffyniannus sy'n gallu darparu twf cryf a chynaliadwy.

7.5.2 Bydd datblygu cynaliadwy mewn gweithgareddau caffael yn cynorthwyo â'n nod o sicrhau bod ein camau gweithredu yn cyfrannu ar y cyfan i wella'r amgylchedd, adeiladu cymunedau cryfach, annog datblygiad yr economi ac o ganlyniad cynyddu darpariaeth gwerth cymdeithasol.

7.5.3 Er mwyn darparu Buddion Cymunedol yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru, byddwn yn:

- a) Defnyddio polisi Budd Cymunedol i bob achos o gaffael sector cyhoeddus lle gellir gwireddu buddion o'r fath.
- b) Mabwysiadu fel bo'n berthnasol dull craidd neu ddull nad yw'n un craidd i gynnwys gofynion cymdeithasol perthnasol a chymesur mewn ymarferion caffael.
- c) Gweithio mewn partneriaeth gyda chyflenwyr i ddarparu a mesur canlyniadau cadarnhaol a ddarperir.

7.6 Cystadleuaeth Agored, Hygyrch

- 7.6.1 Byddwn yn sicrhau bod yr holl arferion a phrosesau caffael yn agored a thryloyw.
- 7.6.2 Bydd pob gweithdrefn caffael yn cael ei gweithredu mewn modd proffesiynol i sicrhau'r safonau uchaf posibl o gydymffurfio, uniondeb, natur agored ac atebolrwydd.
- 7.6.3 Yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau, bydd cyfleoedd contract ar gael i bob parti sydd â diddordeb. Ni fydd cyflenwyr llai, lleol yn cael eu heithrio o ennill contractau ar wahân, fel consortia, neu drwy rolau gyda'r gadwyn gyflenwi.
- 7.6.4 Er mwyn sicrhau cystadleuaeth agored, hygyrch, byddwn yn:
- Hysbysebu cyfleoedd contract perthnasol drwy www.gwerthwchigymru.co.uk
 - Cyhoeddi rhaglenni contractau i'r dyfodol hysbys.
 - Cynnal Digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' i ymgysylltu â busnesau lleol a'r gymuned gyflenwi ehangach.
 - Annog prif gontractwyr i ddefnyddio cyfleuster 'Haen1' i hysbysebu cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar www.gwerthwchigymru.co.uk.
 - Defnyddio strategaethau 'rhannu' priodol.
 - Hyrwyddo telerau taliad teg drwy'r gadwyn gyflenwi, cynnwys meini prawf addas ym mhrosesau cyn-gymhwyso'r cyflenwr a sicrhau bod telerau ac amodau addas yn amlwg mewn trefniadau cytundebol.

7.7 Prosesau Safonol wedi'u Symleiddio

- 7.7.1 Bydd prosesau caffael yn seiliedig ar ddulliau safonol a defnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, terfynau amser a gofynion i gyflenwyr yn briodol. Mae defnyddio meddalwedd e-fasnachu yn galluogi'r cylch 'caffael i dalu' ac mae defnyddio meddalwedd e-gyrchu yn galluogi'r cais am ymarferion dyfynbrisiau a thendrau.
- 7.7.2 Er mwyn sicrhau bod prosesau caffael yn darparu ffyrdd effeithlon ac effeithiol o weithio i'r Cyngor a'r cyflenwyr rydym yn delio â nhw, byddwn yn cynnwys dulliau caffael a'u hadolygu'n rheolaidd yn unol â'n Rheolau'r Weithdrefn Gontractau, gofynion Deddfwriaethol / Polisi perthnasol ac arfer gorau i sicrhau eu bod yn darparu rheolau rheoli mewnol priodol.

7.8 Cydweithio

- 7.8.1 Mae'r Cyngor am ennill o rannu arfer gorau ac mae wedi ymrwymo i gynyddu cyfleoedd ar gyfer darparu gwell gwerth am arian drwy drefniadau caffael cydweithredol.
- 7.8.2 Mae'n cydnabod y gwerth sydd gan gydweithredu priodol gyda'n partneriaid sector cyhoeddus o ran cynyddu arbedion maint a phŵer prynu. Mae wedi ymrwymo i ystyried a defnyddio'r Fframweithiau a Chontractau a gaiff eu cynhyrchu gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.
- 7.8.3 Er mwyn darparu buddion o gyfleoedd cydweithredol parhaus a newydd, byddwn yn:

- a) Ymgysylltu â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wrth gynhyrchu a defnyddio eu contractau a fframweithiau cydweithredol.
- b) Ystyried cyfleoedd contract sector cyhoeddus cydweithredol sydd ar gael drwy Wasanaeth Caffael y Llywodraeth ac amrywiaeth o Gonsortia Prynu eraill.
- c) Gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau eraill ar faterion caffael perthnasol i ennill gwybodaeth, rhannu gwybodaeth a gweithio i adeiladu unrhyw ganlyniadau a geir i mewn i'n gweithgareddau caffael yn y dyfodol.

7.9 Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesedd

7.10 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod deialog gyda chyflenwyr yn cynorthwyo i gynhyrchu marchnad iach sy'n barod a gallu darparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Awdurdod.

7.11 Er mwyn llywio a datblygu cyflenwyr i ddarparu gwerth gorau am arian, byddwn yn:

- a) Sicrhau bod dadfrifio yn darparu adborth digonol am dendro.
- b) Defnyddio manylebau sy'n seiliedig ar ganlyniadau lle bo'n briodol i annog arloesedd busnes
- c) Defnyddio ymgysylltu cyn y farchnad lle bo'n briodol
- d) Ystyried pob llwybr caffael a phrosesau caffael arloesol sydd ar gael gan gyfarwyddbau Caffael Ewropeaidd.

7.12 Mesur ac Effaith

7.12.1 Yn unol ag arfer rheoli da, caiff perfformiad caffael a chanlyniadau eu monitro i gefnogi gwelliant parhaus. Bydd y Cyngor yn ofalus ac yn cael gwybod am ddatblygiadau'r Sector Cyhoeddus ehangach o ran gweithgareddau Caffael a bydd yn rhannu enghreifftiau o arfer da.

7.12.2 Mae'r Cyngor yn cydnabod y buddion y gellir eu hennill drwy ddeialog gyda Sefydliadau tebyg a thrwy feincnodi ffyrdd o weithio.

7.12.3 Er mwyn darparu fframwaith o fesuryddion perfformiad caffael sy'n gymesur ac sy'n helpu i sbarduno gwelliant, byddwn yn:

- a) Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill i ennill gwybodaeth, rhannu gwybodaeth ac i adeiladu unrhyw ganlyniadau a geir i mewn i'n gweithgareddau caffael.
- b) Darparu adborth i Lywodraeth Cymru a rhoi ystyriaeth i'r dull a gaiff ei hyrwyddo ganddynt.
- c) Ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy'r rhwydwaith Penaethiaid Caffael.
- d) Datblygu systemau adrodd mewnol i gasglu canlyniadau a gyflawnir drwy gaffael.

e) Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar allu caffael yn y dyfodol a gweithgareddau gwirio ffitrwydd.

8 Rheoli Contractau

8.1 Cyflwyniad

- 8.1.1 Rheoli contractau yw'r broses o reoli creu a gweithredu contractau yn systematig ac effeithlon, cynyddu perfformiad gweithredol ac ariannol a lleihau risg. Yn syml, mae'n golygu sicrhau bod pawb sy'n rhan o gontract yn deall eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn eu cyflawni mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl.
- 8.1.2 Mae rheoli contractau'n llwyddiannus yn broses sy'n gofyn am wahanol ddulliau yn ôl yr amgylchiadau. Wrth i drefniadau cytundebol fod yn fwy cymhleth, mae angen rhoi rhagor o amser a sylw i weithgareddau rheoli contractau cynnar gan gynnwys cynllunio gweithredu a sefydlu'r trefniant cytundebol. Mae hefyd yn golygu bod rhaid i ni sefydlu a defnyddio arferion rheoli contract, sy'n sicrhau bod allbynnau perfformiad, perthnasoedd cyflenwyr a chydymffurfio cytundebol, yn cael eu trin yn y ffordd iawn gan y bobl iawn ar yr amser iawn.
- 8.1.3 Bydd y Cyngor yn defnyddio adnoddau a thechnegau rheoli effeithiol ar gyfer Contractau i sicrhau perfformiad gorau a gwerth am arian. Bydd yn sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn foddhaol i'r Cyngor a'r cyflenwr a bydd yn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei wireddu.
- 8.1.4 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod rheoli perthnasoedd gweithredol, strategol a chyflenwyr yn cael eu hystyried yn gymesur yn erbyn ein trefniadau cytundebol.

8.2 Monitro a Goruchwylio:

- 8.2.1 Er mwyn paratoi'n effeithio ar gyfer rheoli contractau a darparu goruchwyliaeth effeithiol, byddwn yn:
- Annog trawsnewid a gynlluniwyd o'r cyfnod tendro/dyfarnu contract i'r cyfnod gweithredu contract a rheoli contract.
 - Sicrhau bod cyfrifoldebau perchnogaeth a rheolaeth contract yn glir.
 - Sefydlu proses wedi'i diffinio'n dda a chynllun rheoli contract clir, gyda chanolbwynt ar ganlyniadau, perfformiad a chydymffurfio.
 - Sicrhau bod cyfrifoldebau a phrosesau wedi'u halinio i fframwaith Rheoli Contract a gytunwyd.

8.3 Adnoddau

- 8.3.1 Er mwyn sicrhau bod adnoddau rheoli contract priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer contractau, byddwn yn:
- Sicrhau bod balans gofynnol o adnoddau adrannol a'r Uned Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau, a dyraniad a gytunwyd o rolau a chyfrifoldebau
 - Defnyddio lefelau adnoddau yn gymesur â phwysigrwydd / risg y contract.
 - Sicrhau bod sgiliau priodol a gwybodaeth contract (sy'n cwmpasu ymwybyddiaeth weithdrefnol a masnachol dechnegol) ar waith.

8.4 Prosesau

8.4.1 Er mwyn sicrhau bod prosesau gweinyddol addas yn amlwg, byddwn yn sicrhau:

- a) Bod copïau o gontractau yn cael eu storio, cofnodi a'u bod yn hygyrch bob amser.
- b) Bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chasglu a'i chofnodi mewn fformat strwythuredig.
- c) Bod trefniadau adrodd gwybodaeth reoli contract rheolaidd ac ad hoc yn digwydd.
- d) Bod adolygiadau contract, dyddiadau adrodd a chyfnodau rhybudd yn cael eu gweithredu mewn modd amserol.
- e) Bod dogfennau'n cael eu cadw yn unol â Pholisi Cadw Cofnodion Corfforaethol y Cyngor.
- f) Bod yr holl ddata personol yn cael ei ddiogelu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

8.5 Darpariaeth Gwasanaeth

8.5.1 Er mwyn sicrhau darpariaeth yn unol â gofynion, byddwn yn:

- a) Sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Contractwr i ddarparu'r gwasanaeth.
- b) Sicrhau bod safonau perfformiad yn cael eu deall yn glir a gweithredu Dangosyddion Perfformiad Allweddol priodol a mesuradwy.
- c) Gweithredu prosesau clir i drin problemau gweithredol a sicrhau bod materion yn cael eu datrys cyn gynted ag sy'n bosibl.
- d) Monitro cydymffurfiaeth cyffredinol gyda chontractau i sicrhau effeithiolrwydd gweithredu a gwerth am arian.

8.6 Cyfathrebu

8.6.1 Er mwyn datblygu sianeli cyfathrebu cadarn, byddwn yn:

- a) Darparu adborth rheolaidd fel mater o drefn i gyflenwyr am eu perfformiad.
- b) Sicrhau, fel bo'n briodol, bod defnyddwyr yn deall beth mae'r contract yn bwriadu ei ddarparu a'u bod, fel sy'n berthnasol, yn ymwneud ag asesu perfformiad cyflenwyr.
- c) Sicrhau bod newidiadau o ran gofynion yn cael eu casglu a'u hystyried fel rhan o brosesau newid a rheoli contractau ffurfiol.
- d) Cynnal adolygiadau perfformiad ffurfiol gyda chyflenwyr, gan gofnodi fel bo angen yn erbyn cynlluniau gwella.

8.7 Rheolaeth Ariannol

8.7.1 Er mwyn darparu rheolaeth ariannol, byddwn yn:

- a) Sicrhau bod taliadau a wnaed i'r cyflenwr yn unol â chostau dan contract.
- b) Mabwysiadu systemau talu effeithlon sy'n glir ac yn cael eu deall yn dda gan bawb.
- c) Orlhain costau a sicrhau eu bod yn cael eu mapio'n briodol yn erbyn cyllidebau.
- d) Rheoli newidiadau talu ar ôl i'r contract gael ei roi, gan ddarparu sicrwydd bod amrywiadau contract yn cael eu gwneud gan ddefnyddio darpariaethau cytundebol / meincnodi a dangos gwerth am arian.
- e) Sicrhau bod iscontractwyr yn cael eu talu mewn modd amserol, yn unol â chymalau cytundebol taliadau teg sydd wedi'u cynnwys yn ein cytundebau cytundebol.

8.8 Rheoli Risg

8.8.1 Er mwyn rheoli risg byddwn yn:

- a) Sicrhau bod trefniadau rheoli risg cytundebol / cyflenwr (gyda chyfrifoldebau a phrosesau clir) ar waith.
- b) Nodi risgiau'n ffurfiol a'u monitro'n rheolaidd, gan ddatblygu camau gweithredu lliniaru a dileu 'hen' risgiau o ystyriaeth.
- c) Datblygu cynlluniau wrth gefn i drin methiannau cyflenwyr.
- d) Datblygu strategaethau gadael a'u diweddarau drwy oes y contract.
- e) Sicrhau bod telerau cytundebol yn cael eu deall a'u monitro.

8.9 Rheoli Contractau

8.9.1 Er mwyn cynnal rheolaeth drwy gydol oes y Contract, byddwn yn:

- a) Cynnal adolygiadau contract rheolaidd. (er mwyn sicrhau ei fod yn dal i ddiwallu anghenion)
- b) Sicrhau llywodraethu newid cytundebol – gan nodi pwy sydd angen cymeradwyo beth.
- c) Mabwysiadu profi gwerth am arian ar newidiadau i contractau drwy feincnodi a dadansoddi'r farchnad.
- d) Sicrhau bod prosesau trin anghydfodau ar waith i drin materion sy'n ymwneud â newid.
- e) Gosod telerau cytundebol clir ar gyfer unrhyw estyniad ar y contract.

8.10 Perthnasoedd Cyflenwyr

8.10.1 Er mwyn rheoli ein perthnasoedd gyda chyflenwyr, byddwn yn:

- a) Cytuno ar ddull a gytunir o ran rheoli a datblygu'r berthynas gyda'r cyflenwr.
- b) Datblygu rheolaeth perthynas agos gyda chyflenwyr sy'n cynhyrchu gwerth i'r ddwy ochr.
- c) Canolbwyntio ar gasglu arloesed gan y cyflenwr i greu amgylchedd lle mae pawb ar eu hennill.
- d) Cydweithio i wella darpariaeth gwasanaeth yn barhaus ac i gynyddu faint o wybodaeth gaiff ei chasglu gan gyflenwyr.

8.11 Dylanwadau'r Farchnad

8.11.1 Er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o ddylanwadau'r farchnad o'r tu allan, byddwn yn:

- a) Casglu gwybodaeth am y farchnad i gynnal dealltwriaeth o statws y farchnad gyflenwi ehangach ac o gyflenwyr amgen.
- b) Defnyddio prosesau i werthuso ac adolygu opsiynau darparu gwasanaethau.
- c) Defnyddio gwybodaeth i lywio meincnodi, cynllunio wrth gefn a strategaethau ail-gystadlu.